TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# UAL Diploma mewn Dylunio Gemau Lefel 3



**Yn gryno**

Gan ddefnyddio'r cyfrifiaduron perfformiad uchel a'r dechnoleg rith-wirionedd ddiweddaraf, mae'r cwrs hwn yn rhoi'r cyfle i chi ennill sgiliau a phrofiad perthnasol, gan eich helpu i gadw i fyny â'r diwydiant hwn sy'n prysur newid.

**Dyma'r cwrs i chi os...**

... Oes gennych ddiddordeb brwd mewn chwarae gemau

... Ydych yn greadigol ac yn gweithio'n galed

... Hoffech symud ymlaen i addysg uwch yn y maes hwn

**Beth fyddaf yn ei wneud?**

Mae'r diwydiant gemau cyfrifiadurol yn faes sy'n ehangu'n gyflym, ac yn cynnig llawer o gyfleoedd. Mae'r cymhwyster hwn yn eich galluogi i ganolbwyntio ar yr agweddau creadigol,

artistig a thechnoleg ar gynhyrchu gemau digidol. Byddwch yn dysgu drwy ymgymryd â phob cam o'r broses cynhyrchu gemau, megis datblygu celf gysyniadol, animeiddio 2D a 3D, modelu 3D ar gyfer amgylcheddau gemau, a datblygu sgriptiau o fewn crombil gemau. Byddwch hefyd yn dysgu codio ar gyfer gemau ar y we ac apiau.

Wedi i chi gwblhau'r cymhwyster bydd gennych bortffolio cryf o gemau y mae modd eu chwarae i'w cyflwyno i brifysgolion a chyflogwyr.

Cewch eich asesu drwy waith cwrs (a gyflwynir drwy gydol y flwyddyn). Dyma'r cymwysterau a gyflawnir:

Blwyddyn 1

Diploma Lefel 3 mewn Dylunio a Datblygu Gemau Digidol
Cymwysterau cynorthwyol priodol er mwyn ehangu eich set sgiliau a bodloni anghenion y diwydiant

Gweithgareddau Sgiliau

Saesneg a Mathemateg

Blwyddyn 2

Diploma Estynedig Lefel 3 mewn Dylunio a Datblygu Gemau Digidol
Cymwysterau cynorthwyol priodol er mwyn ehangu eich set sgiliau a bodloni anghenion y diwydiant

Gweithgareddau Sgiliau

Saesneg a Mathemateg

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

I gofrestru, mae angen ichi fod ag o leiaf 5 TGAU Gradd C neu uwch. Dylai'r rhain gynnwys Celf/pwnc creadigol/TGCh a naill ai Mathemateg/Rhifedd neu Gymraeg Iaith Gyntaf/Saesneg. Fel arall, rydym yn derbyn cymhwyster Diploma Lefel 2 priodol ar radd Teilyngdod gyda TGAU mewn un ai Mathemateg/Rhifedd neu Gymraeg Iaith Gyntaf/Saesneg.

Dylech hefyd allu defnyddio eich gwybodaeth, sgiliau a barn i gychwyn a chwblhau tasgau a gweithdrefnau lled-gymhleth (o fewn terfynau). Mae hyn yn cynnwys gallu mynd i'r afael â phroblemau gyda lefel o annibyniaeth. Rydych angen bod yn ymwybodol o safbwyntiau a dulliau gwahanol o fewn eich maes astudio neu waith. Bydd disgwyl i chi ymrwymo pum diwrnod yr wythnos o astudio, sy'n cynnwys addysgu'r elfen wybodaeth o'r cymwysterau yn y coleg, a diwrnodau/blociau lleoliad gwaith ar gyfer yr elfen gymhwystra o'r cymwysterau.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Prifysgol: Mae'r cymhwyster hwn yn darparu pwyntiau tariff UCAS ac yn cefnogi eich dilyniant i addysg uwch mewn pwnc sy'n ymwneud â dylunio gemau, megis y Radd Sylfaen mewn Celf a Dylunio Gemau yn Coleg Gwent.

Cyflogaeth: Wedi cwblhau'r cymwysterau hyn, gallech symud ymlaen i swyddi amrywiol, yn dibynnu ar eich llwybr dewisol. Mae opsiynau gyrfa yn cynnwys dylunydd gemau, modelwr 3D, animeiddiwr 2D/3D, peiriannydd dev-ops, rhaglennydd gemau, arlunydd gemau, dylunydd lefel neu arlunydd effeithiau gweledol.

Bydd cwblhau Diploma 90 Credyd Blwyddyn 1 yn llwyddiannus yn eich caniatáu i fynd ymlaen i'r ail flwyddyn a chwblhau'r Diploma Estynedig llawn. Wedi hynny, mae llwybrau dilyniant yn cynnwys:

Gradd Sylfaen mewn Celf a Dylunio Gemau
Addysg uwch mewn ystod o ddisgyblaethau
Cyflogaeth yn y diwydiant gemau
Cyfleoedd gyrfa posibl yn y cyfryngau: Modelwr 3D, arlunydd gwead, artist cysyniad, artist arweiniol, artist rigio, animeiddiwr, artist goleuo a rendro, ysgrifennydd copi naratif, rheolwr cynnyrch, rheolwr/cynhyrchydd prosiect (gemau), profwr QA, artist technegol, cynhyrchydd cynorthwyol, peiriannydd sain, cyfarwyddwr creadigol, peiriannydd 'dev-ops', cynhyrchydd allanol, dylunydd gemau, datblygwr gemau, rhaglennydd gemau, artist gemau, rhaglennydd arweiniol, dylunydd lefelau, golygydd lefelau, animeiddiwr 3D / 2D, artist goleuo ac amgylchedd, peiriannydd sain, artist effeithiau gweledol